

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn E Jones

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cyfarfu Cyngor Cymuned Llanuwchllyn ar y 5ed o Fehefin ac yn bresennol roedd Alwyn E Jones (Cadeirydd), Rhodri Jones, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Lindsey Ellis-Edwards, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Cyflwyniad a thrafodaeth: Croesawyd Tomos Jones, Archeolegydd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, i ehangu'r drafodaeth ar Lwybr y Cei a Llwybr Tegid. Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn gwneud gwaith pwysig ar ddiogelu nodweddion archeolegol a hanesyddol Caer Gai, ac ar yr un pryd yn hyrwyddo mynediad at a lledaenu gwybodaeth am Gaer Gai. Mae darganfod modd diogel i ymwelwyr gerdded at Gaer Gai yn bwysig iawn i'r prosiect, ac mae lle i gydweithio gyda Chyngor Cymuned Llanuwchllyn sydd hefyd yn ymwybodol iawn o beryglon croesi'r A494 rhwng y ddau brif lwybr, a pheryglon cerdded ar hyd Stryd Dŵr. Gan nad oes awdit o ddiogelwch wedi ei wneud hyd yn hyn gan Y Parc, cytunodd y Cyngorwyr i farcio llwybr cyhoeddus o Weirglodd Ddu ar fap a gwneud awgrymiadau eraill er mwyn cyrraedd at y nod. Cytunwyd ymhellach i gyd-weithio ar y Paneli gwybodaeth sydd yn rhan o brosiect y Cyngor yn ogystal â phrosiect y Parc.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod a rhoddwyd croeso cynnes iawn i Lindsey Ellis Edwards i'w chyfarfod cyntaf fel aelod o Gyngor Cymuned Llanuwchllyn. Derbyniwyd datganiadau buddiant gan Huw Antur a Heledd Jones ym materion cynllunio 1889 i a ii. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 1/5/18.

Materion y Clerc :

Derbyniwyd gwybodaeth mai'r Eglwys yng Nghymru yw perchnogion adeilad Eglwys Deiniol Sant a **chytunwyd** i anfon atynt am bryderon y Cyngor am gyflwr yr adeilad.

Adroddwyd y prynwyd ciosg Dolhendre ar gais trigolion yr ardal mewn pryd cyn iddo gael ei dynnu lawr. Y pris oedd £1 i'r Cyngor Cymuned ac mae cynlluniau gan y Cyngor i'w ddefnyddio i arddangos gwybodaeth am Benantlliw. Diolchwyd i Gwyn Roberts am gynnig adfer y difrod a wnaed gan weithwyr BT.

Adroddwyd i'r achlysur "Agor y Drws" a gynhaliwyd yn yr Eagles ar 24/5/18 fod yn ymarfer gwerthfawr o ymgysylltu gyda'r cyhoedd.

Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Sir, Alan Jones Evans. Rhoddodd wybod am y sefyllfa ddiweddaraf am y Clybiau Ieuencid a'r Mudiad Ffermwyr Ifanc. Dywedodd ei fod yn parhau i geisio ymestyn y gefnogaeth i'r Ffermwyr Ifanc a bod trafodaethau yn parhau ar y mater yng Nghyngor Gwynedd. Bu'n ymweld â'r gwaith a wnaethpwyd ar Lwybr Ceunant; mae'r gwaith draenio wedi ei gwblhau'n foddhaol, ond rhaid cofio fod y llwybr ar dir amaethyddol lle mae gwartheg yn tramwyo.

Mae'r Cyngorydd wedi derbyn addewid y bydd y gorchymyn 20mya hyd at bont y Ddyfrdwy yn dod i rym ar 11/6/18.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn E Jones

Bydd yn mynychu cyfarfod diwedd y mis gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri ac arbenigwr ar lysiau'r dial i asesu llwyddiant y rhaglen ddifa ar y tyfiant yn ardal lloches bws Tŷ'n Ddôl. Diolchwyd i'r Cyngorydd am ei adroddiad.

Cyfrifiaduron yn y Gymuned: Derbyniwyd gwybodaeth gan Lindsey Ellis Edwards fod Cyngor Gwynedd yn ceisio helpu pobl sydd heb gyfrifiaduron adref ac sydd angen llenwi ffurflenni ar-lein er mwyn derbyn lwfansau buddiant. Gobeithir lleoli'r rhain mewn canolfannau trefol megis Y Bala.

Materion Is-bwyllgorau:

Eiddo'r Cyngor: Derbyniwyd adroddiad Karl Jones fod cyflwr yr asedau'n dderbyniol. Cytunwyd i ddiolch i Owain Siôn am baentio meinciau'r Cyngor.

Cytunodd Lindsey Ellis Edwards i ystyried a oes ffynonellau cymorth ariannol ar gael i addasu'r toiledau presennol yn doiled i bawb.

Paneli Dehongli: Adroddodd Alwyn E Jones fod yr is-bwyllgor wedi cyfarfod dwywaith a bod y gwaith yn mynd yn ei flaen.

Y fynwent: Dywedodd Alan Jones Evans y byddai'n trafod cytundeb bin y fynwent gyda swyddogion Cyngor Gwynedd. Cytunwyd i brynu hysbysfwrdd ychwanegol gyda pholion i'r fynwent.

Ariannol: Derbyniwyd adroddiad yr Archwilydd Mewnol a diolchwyd am ei fanylder. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18, gan gynnwys Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer Cyngor Cymuned Llanuwchllyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/18. Diolchwyd i'r Swyddog Ariannol am ei gwaith.

ICO: Ar ôl derbyn cyngor gan Un Llais Cymru ac adran Caerdydd o ICO, cytunwyd i gofrestru gyda'r ICO. Cytunwyd i fynegi anfodlonrwydd fod y dogfennau yn ymddangos fel pe byddent ar rai tudalennau yn eithrio Cyngorau Cymuned o'r angen i gofrestru.

Materion lleol: Ystyriwyd materion gan aelodau'r Cyngor Cymuned:

Cytunodd Alan Jones Evans geisio cael safle wedi ei ddynodi ar gyfer yr anabl o flaen cartref yn Y Pandy.

Diolchwyd am y rhybudd digonol ymlaen llaw y byddai ffordd Cynllwyd yn cau ar gyfer gwneud gwaith gan y Bwrdd Dŵr, ond nodwyd y bu'r arwyddion fod y ffordd ar gau ymhell ar ôl i'r gwaith cael ei orffen.

Cytunwyd i ofyn i Bwyllgor y Neuadd ystyried camau posibl i wella diogelwch adeg y cynhelir achlysur lle bydd plant yn bresennol, megis arwyddion /goleuadau dros dro.

Cytunwyd i anfon at drefnwyr yr Ŵyl Drafnidiaeth i fynegi siom unwaith eto am gyn lleied o'r iaith Gymraeg a glywyd dros yr uchel seinydd, ac na chwaraewyd cerddoriaeth Cymraeg. Mynegwyd y farn y dylai achlysuron fel hyn ddangos parch at iaith a diwylliant ein bro os am sicrhau parhad cefnogaeth ac ymddiriedaeth yr ardalwyr.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn E Jones

Gohebiaeth:

Parc Cenedlaethol Eryri: Cymeradwywyd Cais NP5/71/39X sef codi storfa bren yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn. Cymeradwywyd Cais NP5/71/L377B sef trosi cyn-dŷ ac adeiladu estyniad ochr ar safle cyn ysgubor i ffurfio uned llety gwyliau gan gynnwys creu man parcio a gosod tanc septig yn Cwm Ffynnon, Nant y Barcud.

Gwynedd: Derbyniwyd rhaglenni gwaith ar y ffyrdd Mai a Mehefin, a rhaglen torri gwair ar hyd ochr ffyrdd. Cytunodd Alan Jones Evans i drafod yr amserlen gyda swyddogion.

Llwybr y Cei a Llwybr Tegid: Adroddwyd fod gohebiaeth am y llwybrau wedi ei yrru i sylw'r Aelod Cynulliad.

Un Llais Cymru: Diolchwyd i Huw P Roberts am ei adroddiad o'r Cyfarfod Blynyddol. Cytunwyd i ofyn i Un Llais Cymru ar restr gryno i'w chylchredeg i'r aelodau o'r Modiwlau sydd ar gael. Cytunwyd i anfon at Un Llais Cymru i fynegi y dylai Swyddogion yr ardal hon fod yn gallu gweithredu yn Gymraeg.

Wrth derfynu'r cyfarfod, llongyfarchodd y Cadeirydd pawb a oedd wedi cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd. Cytunwyd i anfon at Ysgol O M Edwards, yr Adran Bentref ac Aelwyd Penllyn i fynegi balchder y fro yn eu llwyddiant.